# Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA)









CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.gov.uk

## Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA)

Rheidrwydd deddfwriaethol i ddarparu addasiadau i gydymffurfio a nod darpariaeth deddfwriaethol Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adnewyddu 1996, Adrannau 19 – 24 fel a ddiwygiwyd yn Atodlen 3 o'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Lloegr a Chymru) 2002.

## Beth yw grant Cyfleusterau i'r Anabl?

Mae'n grant penodol am waith i ddarparu cyfleusterau, ac i gario allan addasiadau i anheddau er budd i bersonau anabl, yn eu prif gartref. Mae'r grantiau yn fandadol. Mae yna uchafswm grant o £36,000, ond mewn achosion arbennig gellir caniatau ychwanegu benthyciad dewisol, drwy gyfrwng Benthyciad Dewisol Cyfleusterau i'r Anabl (BDCA). Gall y penderfyniad terfynol parthed dyfarnu'r benthyciad yma ei wneud gan y Panel Apeliadau Ffurfiol. Bydd y swm ychwanegol yma yn gael ei roi fel arwystl cyfreithiol yn erbyn yr eiddo sy'n destun y grant, ac i gael ei ad dalu os gwerthir yr eiddo. Dim ond rhydd ddeiliaid yr eiddo fydd yn gymwys i dderbyn y benthyciad dewisol.

Mae cawodydd mynediad gwastad, lifftiau grisiau, addasu ystafelloedd, ac estyniadau yn esiamplau o'r math o waith y gellir ei gyflawni.

## Cymhwysedd

Drwy gyfeiriad ffurfiol gan Therapyddion Galwedigaethol Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd. Bydd Therapydd Galwedigaethol yn ymweld a chwi, ac yn trafod yr addasiadau bwriedig gyda chwi i sicrhau fod eich holl anghenion angenrheidiol yn cael eu hystyried. Os bydd angen, gall Swyddog Grantiau ymweld gyda'r Therapydd Galwedigaethol i benderfynu os gellir cario allan yr addasiadau bwriedig i'ch cartref. Os cymerir y penderfyniad i gario ymlaen, bydd y gwaith yn cael ei gario allan yn y modd mwyaf effeithiol.

## Y Prawf Modd

Mae'n reidrwydd statudol fod pob grant yn ddarostyngedig i brawf modd. Gellir gwneud prawf modd  rhagarweiniol cyn cael unrhyw gyfeiriad gan Therapydd Galwedigaethol os dymunir.  Bydd y prawf modd yn cael ei gario allan ar y Person Anabl a'i briod. Mae taliadau morgais/rhent, biliau'r cartref, a thaliadau Treth y Cyngor yn cael eu cymeryd i ystyriaeth gyda'i gilydd. Rhaid datgan pob incwm, asedau, cyfalaf a chynilion. Bydd yn raid i chwi ddarparu dogfennau gwreiddiol fel slipiau cyflog, datganiadau banc am gyfnod o ddeuddeg mis fel rhan o'r prawf modd. Bydd derbyn rhai budd daliadau yn caniatau i'r person anabl osgoi cyfran o'r broses prawf modd. Os yw'r gwaith angenrheidiol ar gyfer plentyn anabl, NI fydd raid cymeryd prawf adnoddau.

## Y Broses

Bydd yr Adran Grantiau yn derbyn cyfeiriad oddiwrth Therapydd Galwedigaethol , ac wedyn yn cysylltu a chwi er mwyn llenwi ffurflen gais a chymeryd prawf adnoddau ffurfiol.  Unwaith y ceir canlyniad terfynol prawf adnoddau, bydd Swyddog Grantiau yn paratoi rhaglen waith yn cyfateb a'ch anghenion fel a nodir yng nghyfeiriad y Therapydd Galwedigaethol. Wedyn bydd raid i chwi a'r Therapydd Galwedigaethol gytuno gyda'r rhaglen waith cyn  cael prisiau am y gwaith gan ymgymerwyr perthnasol.  Unwaith y cytunir ar y prisiau, cymeradwyir y grant, a disgwylir i'r ymgymerwr gychwyn ar y gwaith o fewn 6 wythnos.  Ar gyfartaledd, bydd cyfnod o tua 9 mis o gysylltiad cyntaf gyda'r Therapydd Galwedigaethol hyd at gwblhad y gwaith.  Swm y grant a gymeradwyir fydd y gwahaniaeth rhwng cost gyfan y gwaith cymwys, a'ch cyfraniad chwi fel a benderfynir drwy'r prawf adnoddau.

## A oes yna unrhyw Amodau?

Rhaid i chwi brofi perchnogaeth o'r eiddo. Byddwn yn ceisio gwneud hyn

drwy gysylltiad uniongyrchol a'r Gofrestrfa Tir os yn bosibl, ond os nad yw yr eiddo wedi ei gofrestru, bydd raid i chwi ofyn i Gyfreithiwr neu eich Benthyciwr Morgais i gwblhau Tystysgrif Profi Teitl.

Rhaid i chwi dalu eich cyfraniad (os oes un) yn llawn cyn dechrau unrhyw waith.

Lle bod ymgeisydd wedi cael un Grant Cyfleusterau i'r Anabl mewn un eiddo, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ystyried ceisiadau am yr un math o waith mewn eiddo arall dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd rhagdybiaeth i beidio ariannu gwaith o'r un natur ar ddau eiddo gwahanol i'r un person.

Lle bo cost terfynol y grant yn fwy na £5,000, a bod gan yr ymgeisydd hawl perchennog cymwys ar yr eiddo, bydd y Cyngor yn hawlio'r cyfran o'r grant sydd yn fwy na £5,000 os na chedwir at yr amodau grant yn llawn trwy gydol y cyfnod a nodwyd. Ni all y Cyngor hawlio swm fydd yn fwy na £10,000. Bydd yr amod ad dalu yma yn cael ei weithredu os gwerthir yr eiddo o fewn 10 mlynedd o'r dyddiad a nodir ar y Tystysgrif Cwblhau Gwaith. Ar ol 10 mlynedd bydd yr amodau grant yn dod i ben, ac ni fydd cais am ad daliad.

Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw offer neu addasiad unwaith y mae'r cyfnod cynnal cychwynnol wedi dod i ben, ac ni fydd y Cyngor yn ystyried darparu neu gyflenwi yr un addasiad, pan fod y rheswm dros y diffyg yn deillio o fethiant yr ymgeisydd i ofalu i gynnal a chadw unrhyw offer yn unol a gofynion y gwneuthurwr a'r gosodwr.

## BENTHYCIAD DEWISOL CYFLEUSTERAU I'R ANABL (BDCA)

- Benthyciad dewisol fel ychwanegiad i gymeradwyaeth Grant Cyfleusterau i'r Anabl, lle bod cost y gwaith angenrheidiol yn uwch na'r uchafswm

statudol o £36,000.

- Mae'r math yma o gymorth yn ddewisol, ac ni ellir ond ei ystyried mewn amgylchiadau eithriadol iawn. Nid oes unrhyw hawl awtomatig i dderbyn y benthyciad yma, a lle bo angen, gall penderfyniad terfynol gael ei wneud gan y Panel Apeliadau Ffurfiol.
- Mae'n angenrheidiol fod yr eitemau cymwys o waith y gellir eu hystyried am y benthyciad yma wedi cael eu nodi ar atgyfeiriad ffurfiol gan yr Adain Therapi Galwedigaethol yn Adran Dai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden, Cyngor Gwynedd.
- Dim ond ceisiadau ffurfiol am y benthyciad yma ellir eu hystyried, gan ddefnyddio'r ffurflen gais benodedig.
- Bydd y benthyciad, os cymeradwyir, yn cael ei gofrestru fel arwystl ariannol yn erbyn yr eiddo gyda'r Gofrestrfa Dir.
- Ni fydd unrhyw ad-daliad yn cael ei fynnu hyd nes gwerthir yr eiddo, fodd bynnag, gall perchennog rhydd-ddaliad yr eiddo benderfynu ad-dalu mewn un cyfandaliad cyn gwerthu'r eiddo.

## Beth ddylwn wneud yn awr?

Cysylltwch a'ch Swyddfa Ardal leol.

**Arfon:**

Tai Sector Breifat,
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant,
Tai a Hamdden,
Cyngor Gwynedd,
Penrallt,
Caernarfon LL55 1BN

☎ 01286 682621

**Dwyfor & Meirionnydd:**
Tai Sector Breifat,
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant,
Tai a Hamdden,
Cyngor Gwynedd,
Penarlag,
Dolgellau LL40 2YB

☎ 01341 424351